



Bwletin i Rieni - Chwefror 2013

<u>Dyddiadau Pwysig</u>	<u>Arolygiad Ysgol Dyffryn Ogwen</u>
11.02.13 - 15.02.13 Hanner Tymor	Dydd Gwener, Chwefror 1af, cyhoeddwyd adroddiad yr arolygwyr Estyn ar Ysgol Dyffryn Ogwen.
Chwefror i Mai Asesiadau allanol ac arholiadau llafar – pawb bl. 10-13.	Wrth arolygu defnyddir pedair gradd i ddisgrifio ysgolion – Rhagorol, Da, Digonol, ac Anfoddfaol – ac ar ôl bod yn yr ysgol am wythnos ddiwedd mis Tachwedd, daethant i'r canlyniad fod Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol 'ragorol' a bod y rhagolygon gwella hefyd yn 'rhagorol'.
26.02.13 Cyfarfod Rhieni Bl.8	Ysgol Dyffryn Ogwen yw'r ysgol uwchradd gyntaf yng Ngogledd Cymru i gael ei dyfarnu'n 'rhagorol' ddwy waith o dan drefniadau arolygu newydd corff arolygu ysgolion Estyn a gychwynwyd yn 2010.
12.03.13 Cyfarfod Rhieni Bl.10	Dyma baragraffau agoriadol yr adroddiad :
25.03.13 - 05.04.13 Gwyliau'r Pasg	<i>Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol rhagorol oherwydd:</i> <ul style="list-style-type: none">• mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn cyflawni safonau uchel iawn;• mae ethos gynhwysol arbennig yn sicrhau cyfle cyfartal a llwyddiant i bob disgybl;• mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol;• mae pwyslais cyson ar ddatblygu sgiliau'r disgyblion;• mae rheolaeth ac arweiniad yn effeithiol iawn.
06.05.13 Gŵyl y Banc	<i>Mae rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:</i> <ul style="list-style-type: none">• rheolaeth yr uwch dim rheoli a'r llywodraethwyr sydd yn pwysleisio cynnydd disgyblion fel prif waith yr ysgol;• cydweithio effeithiol rhwng y staff, rheolwyr a llywodraethwyr;• defnydd arloesol o dechnoleg gwybodaeth i hyrwyddo dysgu ac addysgu tu allan i oriau 'r ysgol.
13.05.13 Arholiadau TGAU/Lefel A	Ceir canmoliaeth arbennig i safonau canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11, gan ddweud fod yr ysgol yn perfformio'n llawer gwell na'r disgwyl yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn canmol gwaith yr athrawon a chyfraniad y Corff Llywodraethol.
24.05.13 Seremoni Proffil Personol	Dywedir fod sgiliau dwyieithog y disgyblion yn ardderchog gyda'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg a Saesneg.
27.05.13 – 31.05.13 Hanner Tymor Sulgwyn	Mae cysylltiadau'r ysgol gyda'r ysgolion cynradd yn cael eu canmol, a'r cydweithio effeithiol gyda rhieni.
18.06.13 Diwedd Arholiadau TGAU	Dywedir fod safonau rhagorol yr ysgol ac ansawdd yr addysgu yn golygu bod yr ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.
20.06.13 Diwedd Arholiadau Lefel A	Yn sgil yr adroddiad yma gwahoddwyd yr ysgol i gyfrannu dwy astudiaeth achos o arfer dda am waith yr ysgol. Bydd y rhain yn ymddangos ar safwe Estyn.
	Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion ac i'r staff wrth lwyddo i gael adroddiad mor ganmoliaethus. Mae'n adroddiad y gall yr ardal gyfan ymfalchïo ynddi.

Tê Brynhawn

Ar brynhawn dydd Iau, 20fed o Ragfyr, bu dros gant o aelodau o gymdeithasau lleol yma yn derbyn lluniaeth ac adloniant. Mae'r cyfan yn cael ei baratoi gan ddisgyblion blwyddyn 10 sy'n dilyn y cwrs Lletygarwch. Y disgyblion sy'n paratoi'r cyfan gan anfon y gwahoddiadau, gwneud y bwyd ymlaen llaw, gosod a pharatoi'r byrddau a gweini yn ystod y parti. Derbyniwyd llu o negeseuon yn diolch i'r ysgol am y croeso. Cafwyd adloniant gan gôr yr ysgol ynghyd ag eitemau cerddorol gan nifer o ddisgyblion yr ysgol. Yr oedd yn braf iawn cael croesawu pawb i'r ysgol.



Gwasanaeth Holocaust

Bu tri disgybl o flwyddyn 13 sef Dafydd Llŷr, Lois Jones a Mari Gwyn yn cynrychioli'r ysgol mewn gwasanaeth cyhoeddus a drefnwyd ym Mangor gan Gyngor Gwynedd, ddydd Gwener, Ionawr 25ain 2013, i gofio'r Holocaust. Bu Mari yn darllen yn y gwasanaeth. Cynhelir gwasanaethau ledled y byd ddiwedd Ionawr bob blwyddyn i gofio'r Holocaust, am mai dyma'r adeg o'r flwyddyn y rhyddhawyd Auschwitz gan fyddin Rwsia yn 1945. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal gwasanaeth bob blwyddyn i gofio'r digwyddiad.



Cinio Ysgol am Ddim

Efallai fod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:-

- * Cymorth Incwm
- * Lwfans Chwilio am Waith
- * Credyd Treth Plant (yn unig)
- * Gwarant Credyd Pensiwn



Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau yng Nghaernarfon ar 01286 682689.

Clwb Gwaith Cartref

Mae'r Clwb Gwaith Cartref ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 3:20 hyd at 4:20. Mae hyn yn gyfle ardderchog i ddisgyblion gael cymorth gyda'u gwaith ysgol.



Mae croeso i ddisgyblion o flynyddoedd 7 i 11 fynychu'r Clwb.

Disgyblion Blwyddyn 10 / 11 / 12 / 13

Mae 2013 yn flwyddyn bwysig iawn i ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau allanol eleni. Cynhaliwyd noson rhieni Blwyddyn 12/13 yn ystod mis Tachwedd, Blwyddyn 11 yn ystod mis Ionawr a chynhelir noson rhieni Blwyddyn 10 ar yr 12fed o Fawrth 2013.

Mae llawer o Aseidiadau dan Reolaeth, Arholiadau Ymarferol ac Aseiniadau sydd yn cyfrannu i raddau terfynol cymwysterau TGAU/UG/Safon Uwch a BTEC yn cael eu cynnal yn ystod gwersi o fis Ionawr – Mai 2013. Mae presenoldeb y disgyblion ym mhob un o'u gwersi yn allweddol os ydynt am wneud y defnydd gorau o'r cyfle i gyrraedd eu potensial.

Gofynnir am gydweithrediad rhieni i sicrhau lefel uchel o bresenoldeb yn yr ysgol drwy gydol y cyfnod pwysig hwn.

Mae gan y disgyblion gyfle i ennill llawer iawn o farciau drwy gyflwyno gwaith cwrs o'r safon uchaf bosibl yn brydlon.

Trefniadau Argyfwng cau'r ysgol

Os bydd y tywydd yn ddrwg ben bore e.e. oherwydd eira, fe'ch cynghorir i wrando ar Radio Cymru, Radio Wales neu Heart FM am gyhoeddiad neu edrychwch ar wefan Cyngor Gwynedd <https://diogel.gwynedd.gov.uk/digwyddiadauargyfwng/> Byddwn hefyd yn ceisio ein gorau i anfon neges destun allan mor fuan â phosibl a rhoi cyhoeddiad ar safwe'r ysgol. Bydd y trefniadau'n ddibynnol ar natur yr argyfwng ond byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch y disgyblion a staff yr ysgol.

Dyma'r camau y byddwn yn eu cymryd o fewn yr ysgol os byddwn yn gorfod cau yn ystod y dydd:-

1. Bwriedir anfon neges destun i chwi os bydd angen cau mewn argyfwng.
(Cofiwch adael i ni wybod os yw rhif eich ffôn symudol wedi newid.)
2. Trefnir bod y cwmnïau bws yn dod i'r ysgol i nôl y disgyblion.
3. Cyhoeddir i'r disgyblion nad ydynt i adael tir yr ysgol (cerdded adref na dal bws) oni bai bod ganddynt fynediad i'w cartrefi neu dŷ perthynas/frind agos.

Anaml y bydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth pan fydd angen gwneud penderfyniad brys. Gallwn eich sicrhau ein bod bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y disgyblion. Hoffwn dynnu eich sylw at bwynt 3 uchod, sef yr angen i ddisgyblion fod yn glir ynglŷn â'r trefniadau 'adref' mewn sefyllfa o argyfwng.

Gofynnir i chi sicrhau fod eich plentyn yn ymwybodol o'r trefniadau y dymunwch iddynt eu dilyn mewn argyfwng.

